# Sgan ar eich Doppler Carotid – Eglurhad

# Labordy Fasgwlar

**Eich sgan**
Yn gyntaf …. Mae'r math hwn o sgan yn gwbl ddi-boen ac ni ddefnyddir unrhyw nodwyddau nac unrhyw ddyfeisiau mewnwthiol eraill. Yn debyg i sgan babi, defnyddir uwchsain i greu delweddau sgrin sy'n dangos llif y gwaed o fewn eich gwythiennau a'ch rhydwelïau.

Mae'n bosibl mae sonograffydd gwrywaidd neu fenywaidd fydd yn cynnal y sgan, yn dibynnu pwy fydd ar ddyletswydd. Os byddwch chi'n bryderus am gael eich sganio gan berson o ryw wahanol, gallwch gysylltu â'r adran a byddwn yn trafod yr apwyntiad.
Rhif ffôn: 01633 - 238287.

**Beth i'w ddisgwyl**
Ar gyfer y math hwn o sgan, bydd yn rhaid i'r technolegydd weld eich gwddf yn hawdd. Mae'n bosibl y bydd yn gofyn i chi dynnu eich côt/ siwmper ayyb. Gofynnir i chi orwedd i lawr ar y gwely a throi eich pen i un ochr. Ar ôl rhoi ychydig o gel oer ar eich gwddf, bydd y technolegydd yn rhoi'r stiliwr ar wyneb y croen ac yn sganio'r man sydd ei angen. Mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo ychydig o bwysedd ysgafn wrth iddo/ iddi wneud hyn.

**Pa mor hir fydd hyn yn para?**
Fel arfer, bydd y math hwn o sgan yn para am ryw 15 - 30 munud ac yna byddwch yn rhydd i fynd.

**Sut gallwch chi baratoi**
Bydd yn rhaid tynnu unrhyw emwaith, sgarffiau ayyb oddi ar eich gwddf gan y gall y rhain fod yn rhwystr i'r sgan. Bydd hefyd yn help i arbed amser os gallwch chi eu tynnu cyn mynd i mewn i'r ystafell archwilio.

Hefyd, er mwyn i'r technolegydd fynd at eich gwddf yn haws, byddai gwisgo top gwddf llac yn syniad da.

**Ar ôl y sgan**
Ar ôl gorffen y sgan, bydd y technolegydd yn ysgrifennu adroddiad i'w anfon at eich ymgynghorydd yn rhoi canlyniadau'r archwiliad. Os bydd yr ymgynghorydd yn dymuno eich gweld eto, bydd yn cysylltu â chi.

**Cludiant Cleifion**

Os byddwch chi’n cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad gyda chludiant cleifion, a fyddech chi cystal â dweud wrth y technolegydd er mwyn iddo/ iddi roi gwybod i’r cludiant pan fydd eich archwiliad wedi gorffen.

**“This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”.**